# Gwenfair yn gorfoleddu yn Hafod y baw a'r llaca

MAE'N anodd gwybod sut i gymryd merch sy'n fudr a blêr ac yn cario'i babi o gwmpas mewn hen rycsac.

Ond mae Megan **Hafod Haidd** yn un o gymeriadau mwyaf hoffus y gyfres gomedi sy'n dod â sain, swyn, ac arogl! cefn gwlad i S4C bob nos Lun.

Nid pawb fyddai'n hoffi cael eu disgrifio fel dynes ddi-siâp, ond mae'r actores Gwenfair Vaughan Jones wrth ei bodd yn chwarae rhan y ferch fferm anffodus.

"Dwi'n mwynhau'n fawr iawn. Mae Megan yn lot fawr o hwyl!" meddai Gwenfair, sy'n hannu o Fethesda, ond sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd.

"Wrth greu'r cymeriad, fe wnaetho ni benderfynu ei gwneud hi mor fudr â phosib, ac wrth i'r gyfres fynd yn ei blaen mae hi'n mynd yn waeth ac yn waeth. Mae'r cymeriadau eraill i gyd yn cael dewis o ddillad ac yn amrywio'u gwisg fel mae'r golygfeydd yn galw, ond dyw Megan ddim yn mynd yn agos at na wardrôb na dynes mêc-yp!

"Ond mae hi'n annwyl iawn yn y bôn. Wedi'r cyfan, dyw bywyd ddim yn hawdd iddi. Mae hi'n gorfod byw gyda'i thad di-drefn a'i thaid di-glem heb sôn am y ffwl drws nesa' sy'n galw heibio byth a hefyd. Mae Megan wedi gorfod bod yn reit tyff - mae'n rhaid iddi fod yn 'un o'r bois.'

Dyw Megan byth yn mynd ymhell heb ei babi wrth gwrs, ac mae Gwenfair yn rhyfeddu at ddoniau yr actor bach.

"Mi nâth o fihafio'i hun yn wych, yn arbennig o ystyried ei fod o'n styc mewn rycsac ar y nghefn i neu'n cael ei wthio ar hyd y lle mewn berfa! Wnaeth o ddim crïo unwaith."

Wedi astudio Cyfathrebu yn y Coleg Normal, mae Gwenfair, 28, hefyd yn actores lwyfan llwyddiannus erbyn hyn, ac yn cael cyfle i deithio i wledydd eraill wrth ei gwaith.

"Y peth diwetha' fues i'n ei wneud oedd perfformio mewn sioe theatr yn Singapore," meddai.

"Rydw i wedi bod yn chwarae rhan Ceridwen yn sioe Cwmni Arad Goch, *Taliesin* ers rhyw dair blynedd, ac wedi teithio'n helaeth o gwmpas Cymru gyda nhw. Ond rydan ni hefyd wedi cael cyfle i berfformio mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau, Canada, Iwerddon cyn gorffen yn Singapore. Nid pob actor sy'n cael cyfle i weithio dramor - dwi wedi bod yn lwcus ac wedi gallu mynd â diwylliant cyfoes Cymreig i bedwar ban byd.





**Gwahaniaeth:** Gwenfair Vaughan Jones fel Megan ac fel hi ei hun

O feddwl am olwg Megan druan, mae'n debyg na fydd gwylwyr yn ei chysylltu gyda'r cymeriad Hannah, merch wyllt y gweinidog yn y gyfres **Y Palmant Aur**, ond Gwenfair sydd tu ôl i'r ddwy ohonyn nhw.

"Mae'r ddwy'n ofnadwy o wahnol, ac mae hynny'n gofyn am ddau wahanol steil o actio," meddai Gwnfair.

"Mae actio Megan yn gofyn am arddull actio 'mawr' - mae hi'n gor-wneu[d] popeth, ond gyda Hannah roedd gofyn bod yn gynnil t[u] hwnt."

Yn Hafod Haidd yr wythnos hon mae Megan yn dyfeisio ffordd o ennill arian yn ystod y tymor cneifio tra bod Ned yn cael profiad anffodus wrth i'w wraig estyn am gactus yng nghanol ffrae.

● ***Hafod Haidd, Nos Lun, Awst 28, 9.00pm.***